Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Llanarmon i Clwyd Gate, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 201-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn.

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn diogelu defnyddwyr y ffordd a'r gweithlu tra bo'r gwaith o osod wyneb newydd yn cael ei wneud ar Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") rhwng Llanarmon a Clwyd Gate yn Sir Ddinbych.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym ar 11 Mehefin 2012 ac yn parhau mewn grym tan 1 Gorffennaf 2012 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol. Rhagwelir mai dim ond rhwng 07:30 o'r gloch a 18:30 o'r gloch y bydd y gwaith yn digwydd.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. Gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 10 mya ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B5430 i'r gorllewin o Lanferres i ganolbwynt ei chyffordd â'r trac mynediad i'r eiddo a elwir yn Fferm Rhesgoed.

Dim ond pan fydd gwaith confoi mewn grym ar unrhyw ddiwrnod penodol yn unig y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys.

ii. Gwahardd pob cerbyd rhag goddiweddyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir uchod tra bo gwaith confoi mewn grym arno.

Disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol yn ystod y dyddiadau a bennir uchod yn unig. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol mewn amgylchiadau nas rhagwelwyd.

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

The A494 Trunk Road (Llanarmon to Clwyd Gate, Denbighshire) (Temporary Traffic Restrictions & Prohibition) Order 201-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The proposed Order is necessary to maintain the safety of road users and the workforce whilst resurfacing works are undertaken on the Dolgellau – South of Birkenhead Trunk Road (A494) (hereinafter referred to as "the trunk road") between Llanarmon and Clwyd Gate in the County of Denbighshire.

The restrictions and prohibition, which will be signed accordingly, are expected to come into force on 11 June 2012 and remain in force until 1 July 2012 or until the temporary traffic signs are permanently removed. It is envisaged that the works will only take place between 07:30 hours and 18:00 hours.

The effect of the proposed Order will be to temporarily:

i. Impose either a 40 mph or 10 mph speed limit on the length of the trunk road that extends in a westerly direction from the centre-point of its junction with the B5430 west of Llanferres to the centre-point of its junction with the access track to the property known as Rhesgoed Farm.

The 10 mph speed limit will only apply when convoy working is in force on any given day.

ii. Prohibit all vehicles from overtaking in the length of the trunk road specified above whilst convoy working is in force.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE